**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**
**Dyddiad:** 4 Chwefror 2003
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Tom Middlehurst | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Jonathan Morgan, Pauline Jarman a Rosemary Butler.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-02-2003 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y cynhaliwyd y seminar deddfwriaeth sylfaenol ar 22ain Ionawr. Roedd y seminar ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, eu staff ymchwil a gweision sifil. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y gwnaeth y Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad, Peter Jones, gyflwyniad byr ac y gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol Cynorthwyol, Mark Partridge, yr ail gyflwyniad.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd i lawer o bobl fynychu'r seminar. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y seminar wedi bod yn addysgiadol iawn i'r cyfranogwyr. Roedd taflenni gwybodaeth yn ddefnyddiol iawn.

2.3 At hynny, crybwyllodd y Cadeirydd, ar ôl y seminarau ffurfiol blaenorol, y byddai'n ddoeth cynnal seminarau y dyfodol mewn ffordd fwy anffurfiol lle y mae'n hawdd i drafod. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i wahodd arbenigwyr o Westminster sy'n meddu ar brofiad eang o weithredu deddfwriaeth sylfaenol. Nod y seminarau yw cyflwyno deddfwriaeth i gynulleidfa ehangach, gan gynnwys y wasg, grwpiau lobi a sefydliadau gwirfoddol. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r mater hwn.

2.4 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Rosemary Butler wedi rhoi dau bapur iddo yn y cyfarfod diwethaf a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Undeb Ewropeaidd y Rhanbarthau: "Opinion on A better division and definition of powers in the European Union" ac "Opinion on Simplification of the Union's Instruments". Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y dosbarthwyd y deunydd hwn iddynt er gwybodaeth.

2.5 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau, yn y Cyfarfod Llawn ar 28ain Ionawr, i'r Llywydd godi un o argymhellion y Pwyllgorau ar gyfer Adolygiad y Cynulliad o Weithdrefnau, ynglŷn â rôl y Pwyllgor Deddfau wrth sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth yn llawn (fel arfarniad rheoliadol, asesiad o effaith amgylcheddol ac ymgynghori â busnesau). Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn pryderu na wnaed cynnydd ar y mater hwn ac awgrymodd fod y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Llywydd ynglŷn â'r mater hwn ac yn anfon copi o'r llythyr at y Cwnsler Cyffredinol. **Gweithredu: Clerc, Ymgynghorydd Cyfreithiol**

2.6 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor gynnal trafodaeth gyda chynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru yn y cyfarfod ar 21ain Mai, a esboniodd gefndir y sefydliad a sôn wrth y Pwyllgor am eu prosiect sy'n dwyn yr enw "yr AGORA", a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn y Basn Hirgrwn, Bae Caerdydd.

2.7 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai Theatr Fforwm Cymru yn lansio Adroddiad Agora 2002 a'u DVD yn Ardal Ymgynnull Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddydd Mercher, 5ed Chwefror am 1pm. Mae'r Adroddiad Agora a'r DVD yn cyflwyno argymhellion polisi gan 15 o grwpiau cymunedol ledled Cymru, a weithiodd gyda Theatr Fforwm Cymru i gyflwyno eu hachos dros newid gan ddefnyddio theatr ddeddfwriaethol. Dywedodd y Cadeirydd y dosbarthwyd gwybodaeth am y digwyddiad hwn i'r Aelodau.

2.8 Croesawodd y Cadeirydd Tom Middlehurst a Huw Lewis yn ôl i'r Pwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
LC611 – Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC611 (Adroddiad).

**LC612 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwaith

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC612 (Adroddiad).

**LC610 – Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2003**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC610 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Chwefror 2003.